

Ymdopi gydag Argyfwng Mawr

Cyngor ymarferol



Cyflwyniad

Mae'n annhebygol iawn y bydd unrhyw un ohonom yn cael profiad o argyfwng neu drychineb, ond trwy fod yn wybodus ac wedi'n paratoi, gallwn leihau'r risg i fywyd ac eiddo mewn argyfwng yn sylweddol.

At ba fath o ddigwyddiad ydy'r Uned Rheoli Argyfyngau yn cynllunio?

Mae'r Uned Rheoli Argyfyngau'n creu cynlluniau/trefniadau ar gyfer:

- Tywydd garw
- Digwyddiadau cemegol
- Argyfyngau pibellau
- Llygredd arfordirol
- Digwyddiadau trafndiaeth
- Diogelwch mewn meysydd chwaraeon
- Diogelwch mewn digwyddiadau cyhoeddus mawr
- Porthladdoedd

...i enwi ond ychydig

Beth sy'n digwydd yn achos argyfwng mawr?

Y gwasanaethau brys sy'n gyfrifol am ymateb i argyfyngau mawr.

Fodd bynnag, mae gan Gyngor Caerdydd rôl sylweddol i'w chwarae mewn argyfwng mawr a bydd angen iddo ddyrannu staff ac adnoddau i helpu i leihau'r effeithiau ar y gymuned leol.

Prif swyddogaethau Cyngor Caerdydd yw...

- Cefnogi'r gwasanaethau brys
- Cefnogaeth a gofal i'r cymunedau lleol a'r cymunedau ehangach
- Defnyddio adnoddau i leihau effeithiau'r argyfwng
- Cydlynu ymateb y sefydliadau heblaw am y gwasanaethau brys
- Cymryd y rôl flaen wrth adsefydlu'r gymuned ac adfer yr amgylchedd wrth i'r pwyslais newid i waith adfer

Mae gan yr Uned Rheol Argyfyngau swyddogaeth ymateb 24 awr yn achos digwyddiad.

Sut byddaf yn cael y diweddaraf am argyfwng mawr?

Mae cyfathrebu effeithiol yn hanfodol yn ystod argyfwng mawr. Caiff diweddariadau ar ddiwyddiadau eu rhyddhau'n rheolaidd, neu drwy friffiau wedi'u cynllunio i'r cyfryngau lleol.

Felly, bydd teledu lleol, radio, cyfryngau cymdeithasol a phapurau newydd yn hanfodol gan y byddant yn rhoi newyddion a gwybodaeth am y digwyddiadau, gan gynnwys cyhoeddi unrhyw rifau ffôn brys o bosibl.

Eich gorsafoedd teledu lleol yw...

BBC One Wales
ITV Wales
S4C

Eich gorsafoedd radio lleol yw...

BBC Radio Wales:

FM: 90.3 to 95.8
DAB: BBC Radio Wales

BBC Radio Cymru:

FM: 93.1 to 104.9
DAB: BBC Radio Cymru

Capital:

FM: 97.4 - 103.2

Heart:

FM: 105 - 106

Eich papurau newydd lleol yw...

Western Mail South Wales
South Wales Echo

Twitter

EVAC Caerdydd: [@evaccardiff](https://twitter.com/evaccardiff)

Cyngor Caerdydd: [@cyngorcaerdydd](https://twitter.com/cyngorcaerdydd)

Western Power Distribution: [@wpduk](https://twitter.com/wpduk)

Dŵr Cymru: [@DwrCymru](https://twitter.com/DwrCymru)

Facebook

EVAC Caerdydd: <https://www.facebook.com/evaccardiff/>

Mewn amgylchiadau penodol, gallai'r heddlu a/neu asiantaethau eraill fynd o ddrws i ddrws i roi gwybodaeth i'r cyhoedd. Os yw'r digwyddiad yn para am amser hir mae'n bosibl y caiff canolfannau gwybodaeth i'r cyhoedd eu sefydlu.

Beth am y bobl sydd wedi bod yn rhan o'r argyfwng?

Caiff unrhyw bobl sydd wedi'u niweidio gymorth cyntaf a/neu eir â nhw i'r ysbty. Gofalir am y bobl hynny sydd wedi gorfod gadael eu cartrefi na allant fynd at gartref ffrind neu berthynas gan Gyngor Caerdydd a fydd yn agor Canolfannau Seibiant i roi llety dros dro a bwyd hanfodol.

Os caiff cartrefi eu harwahanu, caiff trefniadau eu gwneud gan Gyngor Caerdydd i roi cymorth addas. Bydd yr ymateb i bob achos yn amrywio, yn dibynnu ar fath a hyd a lled y digwyddiad.

Bydd Cyngor Caerdydd, ar y cyd â'r Awdurdod Iechyd ac asiantaethau eraill, yn rhoi cyngor ar y rhan fwyaf o faterion llesiant. Yn achos digwyddiad graddfa fawr, gallai canolfan arbenigol gael ei sefydlu i ddarparu gwasanaeth cwnsela a llesiant cyffredinol. Cyrff eraill a allai roi cymorth yw...

- Awdurdodau Iechyd
- Adrannau'r Llywodraeth
- Gwasanaethau Nwy, Dŵr, Trydan
- Sefydliadau Gwirfoddol

Beth sy'n digwydd ar ôl digwyddiad mawr? Pan fo'r pwyslais yn newid i waith adfer, bydd Cyngor Caerdydd â'r rôl flaen wrth hwyluso'r gwaith o adsefydlu'r gymuned ac adfer yr amgylchedd.

Gall Awdurdodau Lleol ddod yn rhan o'r gwaith o gefnogi cymunedau lleol sy'n wynebu trawma gorfod ailfyw atgofion poenus.

I sicrhau bod gwersi'n cael eu dysgu a bod unrhyw droseddau'n cael eu cosbi, mae digwyddiadau mawr yn destun ymchwiliadau amrywiol. Gwneir y rhain gan gyrff amrywiol yn dibynnu ar natur y digwyddiad.

Sut gallaf baratoi?

Yn bwysicaf, y brif neges yw gwranddo ar y cyfarwyddiadau a gyhoeddir gan y gwasanaethau brys a staff y Cyngor, a chydymffurfio â nhw, gan eu bod yno i'ch helpu.

Ond cyn unrhyw argyfwng, mae nifer o bethau y gallwch eu gwneud i baratoi'n fwy...

- Sicrhewch fod eich cartref wedi'i yswirio'n ddigonol a'ch bod wedi yswirio rydych am iddo fod dan yswiriant
- Sicrhewch fod eich eiddo mewn cyflwr da
- Dysgwch sut a lle i ddiffodd eich cyflenwadau dŵr, trydan a nwy

Cynghorir hefyd eich bod yn casglu a chadw'r eitemau canlynol yn rhan o becyn argyfwng...

- Rhestr o gysylltiadau defnyddiol (gan gynnwys aelodau'r teulu a rhifau cwmnïau dŵr/nwy/trydan)
- Fflachlamp a batrïau sbâr (fflachlamp weindio)
- Radio cludadwy a batrïau sbâr (neu radio weindio)
- Dŵr potel
- Bwyd oes hir, y gellir ei fwyta'n oer os oes angen e.e. caniau o sŵp
- Offer coginio (gan gynnwys teclyn agor tuniau, ffyrc a chylllyll a photiau a phadellau)
- Blancedi/dillad twym
- Pecyn Cymorth Cyntaf ac unrhyw feddyginiaeth ar bresgripsiwn (gan gynnwys eitemau babanod)
- Copïau o ddogfennau pwysig e.e. yswiriant cartref, pasbort
- Swm bach o arian
- Cyflenwadau i anifeiliaid anwes a babanod (os yw'n berthnasol)

Eisiau mwy o wybodaeth?

Am fwy o fanylion ar reoli ar reoli argyfyngau yng Nghaerdydd...

EVAC Caerdydd: <http://www.evaccardiff.co.uk/>

Neu cysylltwch â ni

Cyfeiriad: Uned Rheoli Argyfyngau Caerdydd
 Ystafell 151
 Neuadd y Ddinas
 Caerdydd
 CF10 3ND

E-bost: emergencymanagement@cardiff.gov.uk

Web: <http://www.cardiff.gov.uk/evaccardiff/>

Tel: 02920 871838